

Heriau i'r sector diwylliant – Amgueddfa Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5117A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn a'r hyn y mae'n ei wneud	4
Casgliad cyffredinol	5
Yr hyn a ganfuom: y sefyllfa ariannol	5
Yr hyn a ganfuom: trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol	9
Argymhellion	15
Atodiadau	
Ynglŷn â'n gwaith	17
Y sefyllfa ariannol yn Amgueddfa Cymru	21

Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn a'r hyn y mae'n ei wneud

- 1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i Amgueddfa Cymru osod amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i gyfrannu at lesiant Cymru, nawr a thros y tymor hwy. Rhaid iddi hefyd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio a yw Amgueddfa Cymru wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy¹ wrth osod ei hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.
- 2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ein harchwiliad o'r camau y mae Amgueddfa Cymru yn eu cymryd i gyflawni ei hamcanion llesiant². Mae wedi canolbwyntio ar y pwysau ariannol sylweddol y mae Amgueddfa Cymru yn eu profi. Mae'r pwysau hynny'n cynnwys costau cynyddol a gostyngiad yn ei chymorth grant (GiA) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae ganddynt oblygiadau i gynaliadwyedd ariannol y sefydliad a'i allu i gyflawni ei amcanion llesiant. Gall cynllunio ariannol effeithiol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy helpu i reoli'r materion hyn.
- 3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a oes gan Amgueddfa Cymru drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a'r tymor hwy, i gefnogi ei hamcanion llesiant. Mae'n rhan o archwiliad ehangach sy'n cwmpasu cyrff hyd braich eraill Llywodraeth Cymru yn y sector diwylliant. Fe wnaethom gymhwyso'r un cwestiynau a meini prawf archwilio cyffredinol ym mhob corff. Fodd bynnag, roedd ein gwaith casglu a dadansoddi tystiolaeth yn ystyried ffactorau cyd-destunol ar gyfer pob corff, gan gynnwys gwahaniaethau mewn swyddogaethau ac yn eu hamgylchedd ariannol. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n sylfaen dystiolaeth.
- 4 Ym mis Gorffennaf 2023, derbyniodd Amgueddfa Cymru'r adroddiad terfynol 'Adolygiad wedi'i deilwra'³ a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwnaeth yr Adolygiad wedi'i deilwra 77 o argymhellion, gan gynnwys argymhellion yn ymwneud â chynllunio a rheoli ariannol.

¹ Mae'r Ddeddf yn nodi bod gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i gorff ystyried pum ffordd o weithio, wedi'u crynhoi fel integreiddio, cyfranogi, cydweithredu ac atal.

² Cyhoeddodd Amgueddfa Cymru ei [Strategaeth 2030](#) yn 2022. Mae'r strategaeth yn cynnwys 'cyfres o Ymrwymadau, Galluogwyr a Chanlyniadau lefel uchel' y mae Amgueddfa Cymru yn nodi, sy'n ffurfio ei Hamcanion Llesiant. Cyhoeddodd hefyd [ddatganiad llesiant ar wahân](#), fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, ym mis Mawrth 2023.

³ Panel yr Adolygiad wedi'i deilwra, [Amgueddfa Cymru: Adroddiad terfynol Panel yr Adolygiad wedi'i deilwra](#), Gorffennaf 2023

- 5 Rydym yn nodi canfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad wedi'i deilwra. Fodd bynnag, nid ydym wedi asesu'n ffurfiol sut mae Amgueddfa Cymru wedi ymateb iddynt.
- 6 Gwnaethom y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn cyn i Lywodraeth Cymru gwblhau ei chyllideb ar gyfer 2025-26. Gobeithiwn y bydd ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn ddefnyddiol i Amgueddfa Cymru wrth iddi barhau i ddatblygu ei chynlluniau ariannol ar gyfer y tymor hwy.

Casgliad cyffredinol

- 7 Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad canlynol:
 - Derbyniodd Amgueddfa Cymru doriad sylweddol i'w refeniw GiA ar gyfer 2024-25, a roddodd bwysau pellach ar sefyllfa ariannol sydd eisoes yn heriol. Er bod y GiA wedi cynyddu dros y pum mlynedd flaenorol mewn termau real, cododd costau staff a chostau uniongyrchol eraill yn gyflymach.
 - Symudodd Amgueddfa Cymru yn gyflym i gwrdd â heriau ariannol ar gyfer 2024-25 a dechreuodd ail-lunio'r sefydliad, ond nid yw effaith gostyngiad sylweddol yn nifer y staff yn glir eto ac mae angen strategaeth ariannol arni i hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor.
- 8 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn darparu rhagor o fanylion am ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn a ganfuom: y sefyllfa ariannol

- 9 Mae **paragraffau 11 i 27** yn rhoi trosolwg cyffredinol o nodweddion allweddol sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru. Mae'r data a adroddwyd yn bennaf o ddatganiadau ariannol blynyddol ar gyfer 2019-20 i 2023-24. Mae cyfres o arddangosion yn **Atodiad 2** yn darparu manylion ychwanegol.
- 10 Nid oedd datganiadau ariannol archwiliedig terfynol ar gyfer y blynyddoedd dilynol ar gael ar adeg ein hadolygiad. Fodd bynnag, rydym wedi darparu rhywfaint o sylwadau ar setliadau cyllido yn 2024-25 a 2025-26.

Derbyniodd Amgueddfa Cymru doriad sylweddol i'w refeniw GiA ar gyfer 2024-25, a roddodd bwysau pellach ar sefyllfa ariannol sydd eisoes yn heriol. Er bod y GiA wedi cynyddu dros y pum mlynedd flaenorol mewn termau real, cododd costau staff a chostau uniongyrchol eraill yn gyflymach

Incwm

- 11 Mae Amgueddfa Cymru yn derbyn y rhan fwyaf o'i chyllid gan Lywodraeth Cymru, yn bennaf ar ffurf GiA. Yn 2023-24, yr incwm cyffredinol oedd £49.6 miliwn, gan gynnwys GiA o £27.1 miliwn (55%). Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r cyfanswm incwm yn ôl ffynhonnell rhwng 2019-20 a 2023-24.
- 12 Cododd y GiA o £22.6 miliwn yn 2019-20 i £27.7 miliwn yn 2022-23. Yna gostyngodd i £27.1 miliwn yn 2023-24. Serch hynny, roedd swm y GiA a dderbyniwyd yn 2023-24 yn debyg i'r hyn fyddai pe bai wedi codi yn unol â chwyddiant cyffredinol ers 2019-20⁴. Mae **Arddangosyn 4** yn nodi incwm GiA real ochr yn ochr â'r gymhariaeth tymor real hon.
- 13 Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yng nghyfansoddiad y GiA yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o un flwyddyn i'r llall. Yn benodol, mae GiA Amgueddfa Cymru yn aml yn cynnwys elfennau amser cyfyngedig a/neu gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn at ddibenion penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys cymorth ar gyfer pwysau cyflog a chostau byw, a oedd yn dod i gyfanswm o £2.5 miliwn a £1.9 miliwn yn 2022-23 a 2023-24 yn y drefn honno.
- 14 Mae Amgueddfa Cymru yn derbyn cyllid refeniw a grant cyfalaf cyfyngedig arall gan Lywodraeth Cymru. Cynyddodd hyn o £2.2 miliwn yn 2019-20 i £14.1 miliwn yn 2023-24, gan godi bob blwyddyn ac eithrio 2022-23. Cafwyd cynnydd mewn cyllid grant refeniw arall yn cynnwys £5.2 miliwn ar gyfer cynllun diswyddo gwirfoddol yn 2023-24 (gweler **paragraffau 36 i 39**).
- 15 Cynyddodd cyllid grant cyfalaf o £1.5 miliwn yn 2019-20 i £5.4 miliwn yn 2023-24, ond gan gyrraedd £6.4 miliwn yn 2021-22. Mae grant cyfalaf wedi cefnogi prosiectau mawr fel ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis. Mae hefyd yn ariannu gwaith cynnal a chadw ar safleoedd eraill, er nad yw hyn

⁴ Ar gyfer ein dadansoddiad termau real, fe wnaethom ddefnyddio datchwyddwyr cynnyrch domestig gros Trysorlys EF ar brisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2025. Dyma'r rhai diweddaraf ar gael ar adeg drafftio'r adroddiad hwn. Fe wnaethom seilio ein cyfrifiad ar gyfanswm y GiA a dderbyniodd Amgueddfa Cymru bob blwyddyn.

wedi bod yn ddigon i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw mawr, a oedd tua £70 miliwn ym mis Rhagfyr 2024⁵.

- 16 Daw gweddill incwm Amgueddfa Cymru o grantiau nad ydynt yn rhai Llywodraeth Cymru, gweithgareddau masnachol, rhoddion preifat, a buddsoddiadau. Mae'r incwm arall hwn wedi amrywio ond roedd yn sylweddol uwch yn 2019-20 oherwydd asedau ar ffurf rhoddion gwerth £5.5 miliwn.

Gwariant

- 17 Costau staff yw maes gwariant mwyaf Amgueddfa Cymru. Fe wnaethant godi o £21.6 miliwn yn 2019-20 i £31.7 miliwn yn 2023-24. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd pwysau chwyddiant ac, ar gyfer 2023-24, y cynllun diswyddo gwirfoddol. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos gwariant yn ôl math rhwng 2019-20 a 2023-24.
- 18 Defnyddir GiA Amgueddfa Cymru yn bennaf i dalu costau staff. Yn 2021-22 a 2022-23, roedd costau staff yn fwy na'r GiA. Mae **Arddangosyn 6** yn dangos costau staff fel cyfran o'r GiA.
- 19 Mae Amgueddfa Cymru hefyd yn ysgwyddo costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'i gweithgareddau a'i chostau rhedeg, megis ynni. Mae ffactorau economaidd ehangach wedi gyrru'r costau hyn i fyny. Yn 2019-20 roeddent yn £8.2 miliwn, ac erbyn 2023-24 roeddent yn £11.9 miliwn.
- 20 Mae costau eraill yn cynnwys newidiadau yng ngwerth asedau Amgueddfa Cymru, costau cyllid pensiwn, ac enillion a/neu golledion o waredu buddsoddiadau. Maent hefyd yn cynnwys cyfran Amgueddfa Cymru o wariant net, ochr yn ochr â Dinas a Sir Abertawe, ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe.

Cronfeydd wrth gefn

- 21 Mae gan Amgueddfa Cymru gronfeydd wrth gefn cyhoeddus a phreifat anghyfyngedig a chyfyngedig. Gall wario arian anghyfyngedig ar weithgareddau sy'n cefnogi ei hamcanion ac i fynd i'r afael â diffygion cyllid. Dim ond at ddibenion penodol y gall Amgueddfa Cymru ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig.
- 22 Mae cronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig yn dal incwm hunangynrychedig. Maent hefyd yn dal cyllid Llywodraeth Cymru sydd wedi'i gario ymlaen o un flwyddyn i'r llall, er bod hyn wedi'i gyfyngu i 2% o'r GiA. Mae grant Llywodraeth Cymru nas defnyddiwyd ar gyfer prynu eitemau penodol ar gyfer casgliadau hefyd yn cael ei gadw yn y gronfa hon ac mae wedi'i eithrio o'r cyfrifiad hwn.
- 23 Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan Amgueddfa Cymru £4.7 miliwn o gronfeydd wrth gefn arian parod cyhoeddus anghyfyngedig (£5.6 miliwn ar 31 Mawrth 2023).

⁵ Nid ydym wedi adolygu'r ôl-groniad nac wedi ystyried rheolaeth rhaglenni cyfalaf yn fanwl fel rhan o'r adolygiad hwn.

Roedd ganddi £4.6 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn preifat anghyfngedig (£6.1 miliwn ar 31 Mawrth 2023).⁶

GiA ar gyfer 2024-25 a 2025-26

- 24 Derbyniodd Amgueddfa Cymru doriad sylweddol i'w GiA ar gyfer 2024-25. Roedd papur i Fwrdd Amgueddfa Cymru ym mis Mawrth 2024 yn nodi ei bod yn derbyn toriad o 10.5% (£3 miliwn) i'w GiA o'i gymharu â'r swm a nodwyd mewn cyllideb ddangosol dair blynedd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi iddi o'r blaen ar gyfer 2022-23 i 2024-25.
- 25 Rydym wedi cyfrifo bod y GiA a ddyfarnwyd i ddechrau ar gyfer 2024-25 6% yn llai nag a dderbyniodd Amgueddfa Cymru yn 2023-24⁷. Yn 2023-24, derbyniodd Amgueddfa Cymru GiA o £32.5 miliwn ac yn 2024-25 dyfarnwyd £30.5 miliwn iddi i ddechrau.
- 26 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y GiA ar gyfer 2024-25 yn cynnwys rhai elfennau wedi'u neilltuo. Roedd yn cynnwys £1.5 miliwn i gefnogi'r Strategaeth Ddiwylliant genedlaethol a ddyfarnwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Yna derbyniodd Amgueddfa Cymru y canlynol yn ystod y flwyddyn:
- £0.9 miliwn i gefnogi'r gwaith o gyflawni cam dau 'Llunio ein Dyfodol' ac i weithredu eitemau blaenoriaeth sy'n ddyledus yn yr Adolygiad wedi'i deilwra;
 - £0.3 miliwn i ariannu'r gwahaniaeth rhwng y dyfarniad cyflog a gyllidebwyd gan Amgueddfa Cymru a'r dyfarniad cyflog o 5% y sector cyhoeddus.
- 27 Cwblhaodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ymchwiliad ar effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru ym mis Ionawr 2025⁸. Nid yw ein harchwiliad yn dod i gasgliadau ar lefelau cyllid ac yn hytrach yn canolbwyntio ar sut mae Amgueddfa Cymru yn ymateb i heriau ariannol. Nodwn fod yr ymchwiliad wedi cyfrifo, wrth edrych yn ôl dros gyfnod o ddeng mlynedd hyd at 2024-25, fod cyllid GiA a chyfalaf Amgueddfa Cymru wedi gostwng tua 1% mewn termau real.
- 28 Ar gyfer 2025-26, darparodd Llywodraeth Cymru ddyraniad GiA refeniw o £27.2 miliwn i Amgueddfa Cymru. Mae hyn yn cydgrynhoi'r cyllid ychwanegol o £0.3 miliwn a ddyfarnwyd ar gyfer cyflog ym mis Rhagfyr 2024. Mae'n fwy na'r GiA a

⁶ Mae'r ffigurau cronfeydd wrth gefn arian parod yn eithrio cronfeydd wrth gefn a gynrychiolir gan asedau sefydlog ac asedau/rhwymedigaethau pensiwn. Mae enghreifftiau o asedau sefydlog Amgueddfa Cymru yn cynnwys safleoedd amgueddfeydd a thir ynghyd ag asedau treftadaeth o gasgliad cenedlaethol Amgueddfa Cymru.

⁷ Fe wnaethom seilio'r cyfrifiad hwn ar gyfanswm y symiau GiA (refeniw a chyfalaf) a dderbyniwyd yn 2023-24 ac a nodwyd yn llythyr cyllido Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024 ar gyfer 2024-25.

⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, [Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025](#)

dderbyniwyd ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, sef £0.1 miliwn (2023-24) a £0.5 miliwn (2024-25).⁹

Yr hyn a ganfuom: trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol

Symudodd Amgueddfa Cymru yn gyflym i gwrdd â heriau ariannol ar gyfer 2024-25 a dechreuodd ail-lunio'r sefydliad, ond nid yw effaith gostyngiad sylweddol yn nifer y staff yn glir eto ac mae angen strategaeth ariannol arni i hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor

Mae Amgueddfa Cymru wedi gwella ei dealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol ac mae angen iddi gryfhau ei dealltwriaeth o'r rhagolygon tymor canolig

- 29 Gall asesiad cadarn o'r sefyllfa ariannol a'r rhagolygon helpu i sicrhau dull strategol gwybodus o gynllunio ariannol. Gall dealltwriaeth gyson o'r sefyllfa honno ar draws uwch arweinyddiaeth helpu i sicrhau perchnogaeth a rennir o'r dull . Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo pwysau sylweddol ar gyllid ac efallai y bydd angen penderfyniadau anodd.
- 30 Mae Amgueddfa Cymru wedi nodi costau staff fel ei phrif risg gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel y disgrifir ym **mharagraffau 17 i 18**, dyma'r maes gwariant mwyaf ac maent wedi bod yn uwch na'r GiA mewn rhai blynyddoedd. Er bod Amgueddfa Cymru wedi derbyn taliadau untro gan Lywodraeth Cymru i dalu costau byw a dyfarniadau cyflog staff, nid oes ganddi warant o gyllid ychwanegol ar eu cyfer nac y byddant yn cael eu rhoi i mewn yn y GiA sylfaenol ar gyfer blynyddoedd i ddod.
- 31 Mae Amgueddfa Cymru hefyd yn pryderu am effaith pwysau chwyddiant parhaus ar gostau uniongyrchol nad ydynt yn rhai staff. Er enghraifft, costau ynni ar draws ei hystad.
- 32 Mae Amgueddfa Cymru yn cofnodi ac yn monitro risgiau i'w chynaliadwyedd ariannol yn ei chofrestr risgiau strategol. Mae'r gofrestr yn cynnwys risgiau i gyllid a chronfeydd wrth gefn, ac ôl-groniad cynnal a chadw sylweddol (gweler **paragraff 15**).

⁹ Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei dull gweithredu o ran cyllideb 2026-27 ar 1 Gorffennaf 2025. Mae'n bwriadu cyhoeddi cyllideb blwyddyn ym mis Hydref 2025, a fydd yn cynyddu cyllidebau adrannol yn unol â chwyddiant. Bydd cyllidebau dilynol yn cael eu gosod gan y llywodraeth nesaf, yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.

- 33 Wrth wynebu toriad sylweddol yn y GiA ar gyfer 2024-25 (gweler **paragraff 24**), roedd Amgueddfa Cymru yn cydnabod bod angen cymryd camau pellgyrhaeddol i fynd i'r afael â'r heriau ariannol. Ym mis Ionawr 2024, sefydlodd raglen newid o'r enw 'Llunio ein Dyfodol'¹⁰. Roedd cam cyntaf y rhaglen yn cynnwys adolygiad llawn o lefelau incwm a gwariant. Roedd hefyd yn dwyn ynghyd ddarlun manylach o sefydliad staffio cyffredinol Amgueddfa Cymru, a oedd ar lefel uchel tan y pwynt hwn.
- 34 Helpodd yr adolygiad i lywio dealltwriaeth gyson o'r sefyllfa ariannol a'r risgiau allweddol ar draws arweinyddiaeth Amgueddfa Cymru. Mae hyn yn bwysig gan fod newidiadau sylweddol wedi bod mewn arweinyddiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Penodwyd Prif Weithredwr newydd, a Chadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr newydd yn 2023. Dechreuodd Cyfarwyddwr Cyllid newydd ei swydd yn Hydref 2024.
- 35 Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod bod angen gwell dealltwriaeth o'i rhagolygon ariannol tymor canolig. Rhoddodd y Prif Weithredwr dasg i'r Cyfarwyddwr Cyllid newydd wneud hyn fel rhan o ddatblygu strategaeth ariannol hirdymor (gweler **paragraffau 50 i 53**).

Cymerodd Amgueddfa Cymru gamau cyflym i sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2024-25 a dechreuodd ail-lunio'r sefydliad, ond nid yw effaith colledion staff sylweddol ar ei allu i gyflawni ei amcanion llesiant yn glir eto

- 36 Mae'n bwysig bod gan gyrff gynlluniau clir, cyflawnadwy i helpu i gyflawni cyllideb gytbwys. Gall cynllunio camau gweithredu, boed yn cynhyrchu incwm neu arbedion, dros sawl blwyddyn helpu i sicrhau bod cyrff mewn sefyllfa dda i wneud hyn. Gall helpu i sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i gynllunio a gweithredu cynigion yn effeithiol, gan gynnwys ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Byddai hyn, er enghraifft, yn cynnwys ymgymryd â chyfranogiad effeithiol ac archwilio cyfleoedd i gydweithio.
- 37 Gweithredodd Amgueddfa Cymru yn gyflym i gyflawni'r arbedion ariannol angenrheidiol ar gyfer 2024-25. Ystyriodd ddiswyddiadau gorfodol yn gyntaf ond yna penderfynodd agor cynllun diswyddo gwirfoddol i 'newid maint' y sefydliad fel rhan o'r rhaglen Llunio ein Dyfodol.
- 38 Roedd Amgueddfa Cymru yn ymwybodol o'r effaith ar staff. Yn 2015-16, roedd yn rhedeg cynllun diswyddo gwirfoddol, y dywedodd wrthym fod staff yn meddwl ei fod wedi'i weithredu'n wael. Dywedodd uwch arweinwyr wrthym eu bod yn awyddus i gydbwyso gweithredu cyflym gydag ymgynghoriad agos â staff ac undebau llafur.
- 39 Roedd y cynllun diswyddo gwirfoddol yn rhedeg rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024. Gadawodd dros 100 o staff o dan y cynllun rhwng 31 Mawrth 2024 a 30 Ebrill 2024. Gadawodd mwy o staff yn ddiweddarach yn 2024-25, sy'n golygu bod

¹⁰ Nid ydym wedi adolygu'r rhaglen Llunio ein Dyfodol yn fanwl fel rhan o'r adolygiad hwn.

cyfanswm o 148 o staff wedi gadael o dan y cynllun, sy'n cyfateb i oddeutu chwarter ei weithlu blaenorol. Galluogodd y cynllun, ar y cyd ag arbedion eraill, i Amgueddfa Cymru osod cyllideb refeniw ar gyfer 2024-25 gyda gwarged a ragwelir o £1.4 miliwn¹¹.

- 40 Roedd yr amserlenni tynn yn golygu na ellid cynnal y gostyngiad yn nifer y staff yn y modd strwythuredig neu strategol y byddai Amgueddfa Cymru wedi ei hoffi. Asesodd Amgueddfa Cymru yr effaith debygol y byddai'r cynllun yn ei chael ar wahanol grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Nid oedd yn asesu'r effaith debygol y byddai colli staff yn ei chael ar gyflawni ei hamcanion llesiant. Fodd bynnag, roedd yn ymwybodol o'r angen i ailystyried ei blaenoriaethau yn wyneb gostyngiad mor sylweddol yn nifer y staff (gweler **paragraffau 46 i 48**).
- 41 Defnyddiodd Amgueddfa Cymru gam un Llunio Ein Dyfodol i ddechrau cynllunio sut y byddai'n cyflawni'n wahanol. Sefydlodd bum ffrwd waith:
- AD a'r gweithlu (polisiâu, trefniadau cytundebol a strwythur sefydliadol, gan gynnwys y cynllun diswyddo gwirfoddol)
 - Incwm (ystyried manteisio i'r eithaf ar incwm trwy godi tâl, prosiectau cynhyrchu incwm a chodi arian)
 - Rhaglenni a gweithrediadau (safleoedd/ystad, trefniadau agor a gweithgareddau ar gyfer ymwelwyr)¹²
 - Casgliadau (caffaeliadau, benthyca, ymchwil, storio a chyfleoedd traws-gasglu)
 - Diben (gwerthoedd, diwylliant, brand a blaenoriaethau strategol)
- 42 Yn dilyn y cam cyntaf, aeth Amgueddfa Cymru ati i sefydlu dull tymor hwy o drawsnewid gan gynnwys datblygu dwy strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer cyllid a phobl. Sefydlodd cam dau hefyd dair ffrwd waith sy'n cwmpasu cynhyrchu incwm a masnacheiddio casgliadau, ffyrdd o weithio, ac adolygu a dysgu.
- 43 Dechreuodd y gwaith o dan y tair ffrwd waith newydd hyn yn haf 2024. Cynhaliodd Amgueddfa Cymru gyfres o weithdai i osod amcanion craidd, cynlluniau gwaith, amserlenni a chyflawniadau ar gyfer pob un. Dechreuodd ymgysylltu â staff i ystyried pa weithgaredd y dylent roi'r gorau iddo, dechrau ei wneud, a'i wneud yn wahanol. Enghraifft o addasu ei weithrediadau i adlewyrchu colledion staff oedd gostyngiad mewn oriau agor yn ystod gaeaf 2024-25. Nid oedd gan Amgueddfa Cymru gynlluniau arbedion/incwm ffurfiol ynghlwm wrth y ffyrddau gwaith hyn ar adeg ein hadolygiad.

¹¹ Cynlluniodd Amgueddfa Cymru y gwarged a ragwelir o £1.4 miliwn ar gyfer 2024-25 i ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn. Yr arbedion eraill a gyfrannodd at y gwarged oedd tanwariant yn sgil oedi recriwtio, ad-daliad ardrethi untro, ac oedi rhai gweithgareddau ymgynghori a oedd wedi'u cynllunio.

¹² Yn ddiweddarach, unodd rhaglenni a gweithrediadau ag adnoddau dynol a'r gweithlu o dan ffrwd waith newydd i barhau i ystyried newidiadau cytundebol ar gyfer staff blaen y tŷ.

- 44 Aeth Amgueddfa Cymru hefyd ymlaen â'r gwaith i geisio cynyddu'r gwaith o gynhyrchu incwm. Yn ystod 2024-25, ymchwiliodd a threalodd opsiynau codi tâl mewn safleoedd amgueddfeydd. Roedd y cynlluniau treialu hyn yn archwilio hyfywedd a'r model gorau posibl o godi tâl. Roedd Amgueddfa Cymru yn datblygu strategaeth cynhyrchu incwm newydd ar adeg ein hadolygiad.
- 45 Mae Amgueddfa Cymru nawr yn edrych ymlaen at gam nesaf ei hagenda newid, fel rhan o raglen newydd 'Cyflawni ein Dyfodol'. Wrth iddi ddatblygu darlun cliriach o'r arbedion a'r incwm y mae'n bwriadu eu cyflawni (gweler **paragraffau 51 i 53**), bydd yn bwysig i gynlluniau o'r fath ystyried yr effaith ar ei hamcanion llesiant a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys barn rhanddeiliaid.

Mae angen i Amgueddfa Cymru nawr sicrhau bod cyfeiriad a strategaeth ariannol glir i sefydlu dull tymor hwy o gynaliadwyedd ariannol

- 46 Mae dull strategol o gefnogi cynaliadwyedd ariannol yn bwysig. Mae'n darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn helpu cyrrff i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gydbwysu ysgogiadau polisi ac adnoddau, yn enwedig wrth i heriau newydd ddod i'r amlwg.
- 47 Mae Amgueddfa Cymru wedi ailystyried yr hyn sy'n gyraeddadwy, o ystyried ei chyfyngiadau cyllidebol a cholli staff. Mae wedi cymryd y farn pragmatig na fydd yn gallu cyflawni popeth yr oedd yn bwriadu eu cyflawni trwy ei Strategaeth 2030, amcanion llesiant, a chefnogi cynllun busnes pum mlynedd 2021-2026.
- 48 Dechreuodd y Prif Weithredwr sgwrs eang gyda staff i fyfyrio ar yr uchelgeisiau hyn. Galluogodd hyn, ynghyd ag adolygiad o'r amcanion llesiant, i Amgueddfa Cymru nodi chwe blaenoriaeth. Mae'r blaenoriaethau wedi'u halinio â'r amcanion llesiant ond yn darparu mwy o ffocws ar gyfer dyrannu adnoddau dros y tymor canolig. Nid ydynt yn cwmpasu ehangder llawn yr amcanion llesiant. Cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y blaenoriaethau hyn fel atodiad i Strategaeth 2030 ym mis Mehefin 2024.
- 49 Nid ydym wedi adolygu datblygiad y blaenoriaethau hyn yn fanwl. Fodd bynnag, bydd yn bwysig i Amgueddfa Cymru ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r brif strategaeth a'r amcanion llesiant, gan fod y rhain yn cyfleu'r cyfeiriad strategol cyffredinol. Rhaid i Amgueddfa Cymru adolygu ei hamcanion llesiant yn flynyddol, sy'n cynnig cyfle i wneud hyn¹³. Bydd hefyd yn bwysig i Amgueddfa Cymru ymgorffori'r blaenoriaethau mewn diweddariadau i'r cynllun busnes yn y dyfodol a'u hadlewyrchu yn ei mesurau perfformiad¹⁴.

¹³ Adran 13 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

¹⁴ Yn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2024 ar bennu amcanion llesiant, fe wnaethom argymhell i Amgueddfa Cymru ddatblygu ac adrodd yn erbyn mesurau canlyniadau sy'n adlewyrchu natur strategol, drawsbynciol yr amcanion llesiant, fel y gall fesur cynnydd yn effeithiol yn eu herbyn.

- 50 Er bod Amgueddfa Cymru yn glir y byddai diffyg adnoddau yn rhwystro ei gallu i gyflawni, ar adeg ein hadolygiad, nid oedd ganddi strategaeth ariannol gynhwysfawr i'w helpu i ddeall hyn yn fanylach. Mae hwn wedi bod yn fwlch hirsefydlog.
- 51 Adroddodd yr Adolygiad wedi'i Deilwra (gweler **troednodyn 3**) fod diffyg dull ariannol hirdymor yn effeithio ar allu Amgueddfa Cymru i wneud penderfyniadau strategol ac argymhellodd iddi ddatblygu strategaeth ariannol gadarn. Ym mis Mawrth 2024, fe wnaethom argymhell y dylai Amgueddfa Cymru ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei Strategaeth 2030 a'i hamcanion llesiant a'r risgiau adnoddau a allai effeithio ar gyflawni.
- 52 Clywsom sut mae cyllidebau blynyddol Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud hi'n anodd i Amgueddfa Cymru fabwysiadu dull mwy strategol o ran cynllunio ariannol. Fodd bynnag, dechreuodd y Cyfarwyddwr Cyllid y gwaith cychwynnol i lunio strategaeth ariannol ar ôl cael ei benodi ym mis Hydref 2024. Clywsom hefyd fod Amgueddfa Cymru wedi dechrau cyflwyno dull sero o osod cyllideb ar gyfer 2025-26¹⁵. Bydd hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol a bydd yn llywio cynlluniau gwariant dangosol ar gyfer y pedair i bum mlynedd nesaf.
- 53 Mae Amgueddfa Cymru yn bwriadu cyhoeddi strategaeth ariannol ochr yn ochr â'r cynllun busnes pum mlynedd nesaf, ym mis Ebrill 2026. Bydd yn bwysig i Amgueddfa Cymru ystyried ei chynlluniau gwariant amcanedig yn erbyn pwysau cyllid, incwm a chostau tebygol i asesu ei rhagolygon ariannol a chyfrifo unrhyw fwlch ariannu. Gallai hyn gynnwys modelu gwahanol senarios a meincodi rhagdybiaethau gyda chyrrff hyd braich eraill Llywodraeth Cymru. Dylai'r dadansoddiad hwn gefnogi gwneud penderfyniadau a llywio trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar lefelau cyllid yn y dyfodol ac effaith newidiadau mewn cyllid.
- 54 Gallai Amgueddfa Cymru hefyd ystyried ffactorau ehangach sy'n debygol o lunio ei chynaliadwyedd ariannol. Gallai hyn gynnwys gofynion ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol, risgiau perthnasol, a goblygiadau ar gyfer cyflawni ei hamcanion llesiant. Yn hanfodol, bydd angen i'r strategaeth ariannol newydd alinio â chynlluniau arbedion i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg amcanedig.
- 55 Mae gan Amgueddfa Cymru bolisi cronfeydd wrthgefn, er nad oes manylion am sut mae'n bwriadu defnyddio'r arian. Mae'n bwriadu datblygu polisi cronfeydd wrth gefn cliriach. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i ohirio oherwydd pwysau capasiti. Ers sawl blwyddyn, mae Amgueddfa Cymru wedi bod yn defnyddio cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig i gefnogi gwariant o ddydd i ddydd. Nid yw hyn, fel yr amlygwyd yn yr Adolygiad wedi'i Deilwra (gweler **troednodyn 3**), yn gynaliadwy.
- 56 Dylai cael polisi cronfeydd wrth gefn clir helpu Amgueddfa Cymru i gynllunio ar gyfer gwahanol senarios ariannu ac ymateb iddynt yn ei strategaeth ariannol

¹⁵ Mae cyllidebu sero yn ddull cyllidebu lle mae'n rhaid cyfiawnhau'r holl dreuliau ar gyfer pob cyfnod newydd, gan ddechrau o 'sylfaen sero' yn hytrach na bod yn seiliedig ar gyllideb y flwyddyn flaenorol.

newydd. Dylai hefyd lywio dull Amgueddfa Cymru wrth iddi geisio cynyddu ei chronfeydd wrth gefn drwy incwm hunangynyrchedig i gefnogi ei huchelgeisiau.

Mae Amgueddfa Cymru wedi cynyddu ei throsolwg o'r sefyllfa ariannol ac, wrth iddi symud ymlaen â'i strategaeth ariannol a chyflawni arbedion, bydd angen iddi sefydlu trefniadau priodol i fonitro cynnydd ac effaith

- 57 Mae trefniadau adrodd clir, rheolaidd a thryloyw yn bwysig er mwyn galluogi goruchwyliaeth effeithiol o'r sefyllfa ariannol, y camau gweithredu y mae'r cyrff yn eu cymryd i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol a'r effaith ar eu rhanddeiliaid a'u hamcanion llesiant.
- 58 Mae Amgueddfa Cymru wedi cynyddu'r arbenigedd ariannol ymhlith ei ymddiriedolwyr. Yn 2024, recriwtiodd dri ymddiriedolwr newydd sydd â phrofiad o gyllid corfforaethol, yn ogystal â chynaliadwyedd a llywodraethu'r sector cyhoeddus.
- 59 Mae Amgueddfa Cymru hefyd wedi ceisio darparu gwell gwybodaeth ariannol i arweinwyr. Gwelodd yr Adolygiad wedi'i Deilwra, ddiwedd 2022, absenoldeb adrodd ariannol i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru. Roedd pobl y buom yn siarad â nhw yn ystod ein gwaith maes yn teimlo bod mwy o onestrwydd a thryloywder bellach wrth adrodd am y sefyllfa ariannol.
- 60 Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau bellach yn derbyn cyfrifon rheoli ym mhob cyfarfod chwarterol. Maent yn lefel uchel ac yn cymharu'r gyllideb â refeniw gwirioneddol ac incwm a gwariant cyfalaf, ynghyd â naratif cryno a chasgliadau. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar y cyfrifon rheoli misol mwy manwl, y mae'r arweinyddiaeth weithredol a phenaethiaid adran yn eu derbyn. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd wedi derbyn gwybodaeth am y rhaglen Lluio Ein Dyfodol.
- 61 Yn ystod ein gwaith maes, clywsom fod gan y Bwrdd awydd i wella adroddiadau ariannol ymhellach. Er enghraifft, trwy ddangosfwrdd adrodd ariannol a sefydlu adroddiadau ar gynhyrchu incwm yn erbyn targedau, er nad ydym wedi adolygu'r datblygiadau hyn fel rhan o'n gwaith.
- 62 Mae Amgueddfa Cymru hefyd wedi gwella ei throsolwg o risg. Cyn Mehefin 2024, derbyniodd ei Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) gofnodion ac adroddiadau grŵp rheoli risg staff sy'n cynnwys uwch arweinwyr ac archwilio mewnol. Mae bellach hefyd yn derbyn crynodeb o'r risgiau lefel uchaf a'r gofrestr risgiau strategol lawn fel eitem agenda safonol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod yr ARAC yn cael gweld yn llawn beth yw'r risgiau strategol ac yn gallu ystyried camau lliniaru y mae Amgueddfa Cymru wedi'u rhoi ar waith.
- 63 Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym mai ei phrif ffordd o ddeall effaith cyllid ar ei hamcanion llesiant yw monitro ei chynllun gweithredol blyneddol, sy'n eistedd o dan ei chynllun busnes pum mlynedd. Wrth iddi ddatblygu ei strategaeth ariannol newydd, dylai ystyried sut y bydd hefyd yn monitro ei gweithrediad a'i heffaith,

ynghyd â chynlluniau arbedion cysylltiedig. Bydd angen i hyn ategu'r gwaith monitro presennol o'r cynllun gweithredol blynyddol, ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau wrth fonitro ei hamcanion llesiant (gweler **troednodyn 14**).

- 64 Ar y cyfan, ymddengys fod Amgueddfa Cymru yn awyddus i asesu cynnydd yn barhaus a newid cyfeiriad pan fo angen. Mae'r Prif Weithredwr wedi pwysleisio cyfathrebu â staff, adeiladu ymddiriedaeth ac adolygu'n rheolaidd. Roedd hyn yn amlwg wrth greu ffrwd waith 'adolygu a dysgu' pwrpasol, y mae staff wedi'i harwain gyda chefnogaeth allanol.

Argymhellion

- 65 Rydym wedi cyflwyno pum argymhelliad y byddwn yn disgwyl i Amgueddfa Cymru ymateb iddynt.

Arddangosyn 1: ein hargymhellion

Cynllunio i gyflawni arbedion/cynhyrchu incwm

- A1 Dylai Amgueddfa Cymru ddatblygu cynlluniau arbedion a chynhyrchu incwm ochr yn ochr â'i chynllun busnes 2026-2031. Dylent gael eu halinio â'r strategaeth ariannol i gau unrhyw fwlch cyllidebol a ragwelir a dylent ystyried y canlynol:
- eu cyfraniad/effaith ar ei hamcanion llesiant;
 - cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys barn rhanddeiliaid (gweler **paragraffau 42 i 44**).

Amcanion llesiant a blaenoriaethau cysylltiedig

- A2 Ar ôl datblygu chwe blaenoriaeth i lywio'r gwaith dyrannu adnoddau dros y tymor canolig, dylai Amgueddfa Cymru geisio eu hymgorffori yn ei fframwaith cynllunio a pherfformiad drwy wneud y canlynol:
- 2.1 Sicrhau bod y blaenoriaethau yn cael eu hadlewyrchu mewn diweddariadau i'w chynllun busnes yn y dyfodol.
 - 2.2 Penderfynu a oes angen unrhyw newidiadau i amcanion llesiant fel rhan o adolygiadau blynyddol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
 - 2.3 Nodi mesurau perfformiad priodol fel rhan o'r uchod (gweler **paragraffau 46 i 48**).

Cynllunio ariannol

- A3 Wrth ddatblygu ei strategaeth ariannol, dylai Amgueddfa Cymru archwilio'r ffactorau sy'n debygol o lunio ei chynaliadwyedd ariannol dros o leiaf y tair blynedd nesaf a mwy, lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys:
- modelu lefelau cyllid allanol, pwysau incwm a chostau, a meincodi'r rhagdybiaethau gyda chyrff eraill;
 - ystyried meysydd y gallai fod angen buddsoddiad newydd neu ychwanegol arnynt;
 - ystyried risgiau a allai effeithio ar adnoddau;
 - ystyried sut y bydd yn parhau i gyflawni ei strategaeth a'i hamcanion llesiant, ei chynllun busnes pum mlynedd, a'r rhaglen Cyflawni ein Dyfodol yn y cyd-destun hwn.
- Dylai Amgueddfa Cymru sefydlu hon fel proses barhaus, yn hytrach nag ymarfer untro (gweler **paragraffau 51 i 53**).

Cronfeydd wrth gefn

- A4 Dylai Amgueddfa Cymru ddatblygu polisi cronfeydd wrth gefn cliriach er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gyson o ran rheoli a defnyddio cronfeydd wrth gefn ac i'w helpu i gynllunio ac ymateb i wahanol senarios ariannu yn ei strategaeth ariannol newydd (gweler **paragraffau 54 i 55**).

Monitro a goruchwyllo

- A5 Dylai Amgueddfa Cymru roi trefniadau effeithiol ar waith i fonitro:
- cynnydd tuag at dargedau arbedion/incwm a'u cyflawni;
 - effaith y strategaeth ariannol arfaethedig ac unrhyw gynlluniau arbedion, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer cyflawni'r strategaeth a'r amcanion llesiant.
- Dylai adrodd yr wybodaeth yn rheolaidd i dîm arweinyddiaeth Amgueddfa Cymru, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a phwyllgorau perthnasol, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (gweler **paragraff 62**).

Atodiad 1

Ynglŷn â'n gwaith

Cwestiynau, cwmpas a meini prawf archwilio

Aethom ati i archwilio i ba raddau y mae Amgueddfa Cymru yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ei threfniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Mewn perthynas â chynllunio ariannol, byddem yn disgwyl i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gynnwys ystyriaeth o'r angen i gyflawni'r canlynol:

- Mynd i'r afael â phwysau ariannol ar unwaith, wrth gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau craidd ar yr un pryd.
- Sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad, fel bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau craidd dros y tymor canolog a'r tymor hwy.
- Cyflawni uchelgeisiau strategol, fel y'u disgrifir trwy amcanion llesiant y sefydliad. Mae hyn yn ymgorffori safbwyntiau rhanddeiliaid a dinasyddion a'r angen i gyflawni unrhyw fuddion ataliol tymor hwy.

Rydym wedi nodi ein cwestiynau a'n meini prawf archwilio generig isod. Mae ein meini prawf archwilio wedi'u llywio gan ein gwybodaeth gronnus, canllawiau CIPFA, ac adolygiadau cysylltiedig Archwilio Cymru mewn sectorau eraill. Fe wnaethom hefyd dynnu ar y 'dangosyddion cadarnhaol' yr ydym wedi'u defnyddio mewn prif archwiliadau datblygu cynaliadwy blaenorol. Yn ogystal, fe wnaethom ymgysylltu â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gynllunio'r archwiliad hwn.

Fe wnaethom geisio deall yr heriau ariannol sy'n wynebu Amgueddfa Cymru a sut mae'n ymateb. Fodd bynnag, ni wnaethom archwilio pob ffactor sydd wedi effeithio neu a allai effeithio ar ei chynaliadwyedd ariannol. Ni wnaethom ychwaith adolygu manylion y mesurau penodol y mae'n eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r heriau hynny na'i phrosesau gosod cyllideb flynyddol.

Mae ein gwaith yn Amgueddfa Cymru yn rhan o archwiliad ehangach sy'n cwmpasu Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r cwestiynau a'r meini prawf yn amrywio o ran eu cymhwysedd i bob un o'r pedwar corff. Fe wnaethom ystyried hyn yn ystod ein gwaith casglu tystiolaeth ac adrodd.

Roedd canfyddiadau'r gwaith hwn yn llywio ein hadroddiad diweddar ar weithredu'r Ddeddf ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru¹⁶.

¹⁶ Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Ebrill 2025

Arddangosyn 2: cwestiynau a meini prawf archwilio

Yng nghyd-destun gostyngiadau refeniw y GiA ar gyfer 2024-25, a oes gan y corff drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a'r tymor hwy, yn unol â'i amcanion llesiant?

A oes gan y corff ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol bresennol a'i ragolygon tymor canolig a'i risgiau tymor hwy?

- Mae'r corff wedi asesu ei ragolygon ariannol ac wedi cyfrifo unrhyw fwlch ariannu dros y tymor byr i'r tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol.
- Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid, yr uwch dîm rheoli a'r bwrdd i gyd ddealltwriaeth glir o sefyllfa ariannol bresennol y corff a'r rhagolygon tymor canolig, a sut mae hynny'n cymharu â chyrff tebyg.
- Mae'r corff wedi nodi'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol, gan dynnu ar sylfaen dystiolaeth eang sy'n mynd y tu hwnt i ystyriaethau ariannol. Gallai hyn gynnwys cynnydd yn y galw, gofynion newydd, a safbwyntiau dinasyddion.

A oes gan y corff ddull strategol clir i helpu i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy a chyflawni ei amcanion llesiant?

- Mae'r corff wedi nodi'n glir ei ddull strategol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig, gyda golwg ar y tymor hwy.
- Mae dull strategol y corff o ran cynaliadwyedd ariannol wedi'i ddatblygu yng ngoleuni'r weledigaeth ehangach, y strategaeth gorfforaethol a'r amcanion llesiant.
- Mae dull strategol y corff o ran cynaliadwyedd ariannol yn cael ei gefnogi gan uwch reolwyr a bwrdd.
- Mae'r corff wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor a chyflawni ei amcanion llesiant, gan gynnwys cymharu â chyrff eraill.
- Mae dull strategol y corff yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn strategol i reoli ei heriau ariannol dros y tymor canolig.
- Mae'r corff wedi modelu effaith ragweledig ei ddull strategol o sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau posibl mewn gwasanaethau, cau adeiladau, cynnydd mewn ffioedd, gostyngiadau mewn grantiau) a'r effaith y mae hyn yn debygol o gael ar amcanion llesiant a dinasyddion/rhanddeiliaid.

Yng nghyd-destun gostyngiadau referiw y GiA ar gyfer 2024-25, a oes gan y corff drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a'r tymor hwy, yn unol â'i amcanion llesiant?

A yw'r corff wedi nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'i heriau ariannol dros y tymor byr a'r tymor canolig, yng nghyd-destun cyflawni ei amcanion llesiant?

- Mae gan y corff hanes o fynd i'r afael â heriau ariannol yn llwyddiannus.
- Mae'r corff wedi nodi'r camau gweithredu, gan gynnwys unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud, i fynd i'r afael â'i heriau ariannol dros y tymor byr a chanolig, wedi'u cefnogi gan gynlluniau â thystiolaeth dda ar sail rhagdybiaethau rhesymol.
- Mae gan y corff drefniadau ar waith i ddatblygu camau gweithredu (gan gynnwys cynigion arbedion) i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, sy'n gysylltiedig â'u cyfraniad at gyflawni'r amcanion llesiant.
- Mae trefniadau'r corff yn sicrhau y gall ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu hyn (e.e. cynigion arbedion), gan gynnwys barn rhanddeiliaid.

A yw'r corff yn monitro ei gynaliadwyedd ariannol, y gwaith o gyflawni arbedion ac effaith ar yr amcanion llesiant ac yn ceisio dysgu a gwella?

- Mae gan y corff drefniadau priodol ar waith i fonitro ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig i'r tymor hir.
- Mae gan y corff drefniadau i adrodd yn dryloyw ar effaith/effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion llesiant a'i randdeiliaid/dinasyddion i'r bwrdd, pwyllgorau a rhanddeiliaid eraill.
- Mae'r corff yn nodi amserlenni ar gyfer cyflawni arbedion ac yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd wrth eu cyflwyno i uwch reolwyr, y bwrdd a phwyllgorau perthnasol i alluogi goruchwyllo a chraffu.
- Mae'r corff ar y trywydd iawn gyda chynlluniau i gyflawni arbedion yn 2024-25 a thu hwnt.
- Mae'r corff yn ymwybodol o gryfderau/gwendidau yn ei ddull gweithredu ac yn ceisio dysgu a gwella.

Dulliau archwilio

Gwnaethom ddadansoddiad lefel uchel o ddatganiadau ariannol Amgueddfa Cymru, gan gwmpasu cyfnod o bum mlynedd rhwng 2019-20 a 2023-24 i'n helpu i ddeall ei sefyllfa ariannol a sut mae hynny wedi newid. Fe wnaethom hefyd adolygu llythyrau cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 a 2025-26.

Fe wnaethom adolygu dogfennau eraill gan gynnwys strategaeth ac amcanion llesiant Amgueddfa Cymru, gwybodaeth cynllunio ariannol sydd ar gael, adroddiadau monitro

perthnasol, a phapurau a chofnodion cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau perthnasol. Fe wnaethom hefyd gyfweld â sampl o uwch staff ac aelodau'r bwrdd.

Gwnaethom ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr 'Adolygiad wedi'i Deilwra' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (gweler **troednodyn 3**).

Fe wnaethom gasglu'r rhan fwyaf o'n tystiolaeth rhwng mis Medi 2024 a mis Rhagfyr 2024. Fe wnaethom ddarparu adborth o ran y canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o'n gwaith ym mis Ebrill 2025.


Atodiad 2

Y sefyllfa ariannol yn Amgueddfa Cymru

Mae'r tablau a'r siartiau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru. Nid yw'r wybodaeth yn gynhwysfawr ond mae'n cynnwys setiau data allweddol sy'n dangos y sefyllfa ariannol newidiol rhwng 2019-20 a 2023-24. Fe wnaethom seilio ein dadansoddiad ar ddatganiadau ariannol Amgueddfa Cymru. Mae **paragraffau 24 i 27** yn darparu gwybodaeth am gyllid ar gyfer 2024-25 a 2025-26. Mae hyn yn cynnwys y GiA a chydrrannau eraill sydd â chyfyngiad amser.

Incwm


Arddangosyn 3: Incwm Amgueddfa Cymru yn ôl ffynhonnell, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Amgueddfa Cymru

Nodyn: Mae'r categori 'grantiau eraill Llywodraeth Cymru' yn cynnwys grantiau cyfalaf a grantiau refeniw eraill. Mae'r categori 'grantiau ac incwm eraill nad ydynt yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru' yn cynnwys grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rhoddion a chymynroddion, gweithgareddau masnachu, incwm buddsoddiadau a phob incwm arall.


Arddangosyn 4: Incwm GiA Amgueddfa Cymru mewn termau real ac yn erbyn cymhariaeth ddamcaniaethol mewn termau real, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Amgueddfa Cymru

Nodyn: Ar gyfer ein dadansoddiad termau real, fe wnaethom ddefnyddio datchwyddwyr cynnyrch domestig gros Trysorlys EF ar brisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2025. Dyma'r diweddaraf a oedd ar gael ar adeg drafftio'r adroddiad hwn. Mae'r gymhariaeth termau real yn dangos beth fyddai'r GiA wedi bod rhwng 2020-21 a 2023-24, pe bai wedi codi yn unol â chwyddiant ar ôl 2019-20.

Arddangosyn 5: Gwariant Amgueddfa Cymru yn ôl math, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Amgueddfa Cymru

Nodiadau:

¹ Mae costau staff ar gyfer 2023-24 yn cynnwys £5.2 miliwn ar gyfer costau diswyddo.

² Mae costau uniongyrchol yn gysylltiedig â gweithgareddau Amgueddfa Cymru a'i chostau rhedeg, megis ynni.

³ Mae'r mwyafrif o 'gostau eraill' yn daliadau am ddibrisiant ac amorteiddiad sy'n ymwneud ag asedau Amgueddfa Cymru. Er bod costau cyllid pensiwn bron yn ddim yn 2023-24, roeddent yn amrywio o £0.7 miliwn i £1.2 miliwn rhwng 2019-20 a 2022-23. Mae'r gwariant costau eraill sy'n weddill ar gyfer enillion a/neu golledion o waredu buddsoddiadau (yn amrywio o golled o £0.6 miliwn i enillion o £0.4 miliwn, a chyfran Amgueddfa Cymru o wariant net ar gyfer y fenter ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe, sydd wedi bod oddeutu £0.2 miliwn yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf.

Arddangosyn 6: Costau staff Amgueddfa Cymru fel cyfran o'r GiA rhwng 2019-20 a 2023-24

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
Costau staff (£ miliwn)	21.6	23.0	25.2	29.3	26.5
GiA (£ miliwn)	22.6	23.6	24.8	27.7	27.1
Costau staff fel cyfran o'r GiA (%)	95	97	102	106	98

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Amgueddfa Cymru

Nodyn: Mae costau staff yn natganiadau ariannol 2023-24 yn cynnwys £5.2 miliwn sy'n ymwneud â chynllun diswyddo gwirfoddol (gweler **Arddangosyn 5**). Ariannwyd hwn gan grant cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru, nid GiA. Roedd costau diswyddo blynyddol rhwng 2019-20 a 2022-23 yn amrywio o £0.03 miliwn i £0.12 miliwn. Nid yw costau staff a gynhwysir yn y tabl hwn yn cynnwys costau diswyddo.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone
calls in Welsh and English.